**Trwyddedau Smygu mewn Ardaloedd Amgaeedig**

**Telerau ac Amodau**

Gall darparu ardaloedd penodol i smygu ynddynt fod yn angenrheidiol i gadw cwsmeriaid a cherddwyr ar wahân, ond mae'n bwysig bod yr ardaloedd hyn yn cael eu gweinyddu a'u rheoli'n ddigonol er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safonau uchel a ddisgwylir yng Nghaerdydd. Ni ddylent fod yn rhwystr ar y ffordd fawr, na chreu perygl i gerddwyr na chreu problem glanhau.

Gweler Termau ac Amodau'r Drwydded isod.

1. Mae hon yn drwydded ar wahân i'r Drwydded Caffi Stryd. Mae ar gyfer ardal wahanol. Ni ddylid gosod celfi, byrddau na chadeiriau yn yr ardal smygu ar unrhyw adeg.

2. Cyn cytuno i drwydded ar gyfer ardal smygu ar ffordd fawr gyhoeddus, rhaid i'r Cyngor sicrhau nad effeithir yn andwyol ar hawliau tramwy'r cyhoedd.

3. Rhaid hefyd gydymffurfio gyda deddfau, polisïau a safonau'r Cyngor am resymau iechyd, diogelwch ac amgylcheddol.

4. Mae'r canllaw hwn yn ymwneud â sefydlu ardal smygu amgaeedig ar ffordd fawr yn unig. (Nid yw ardaloedd smygu amgaeedig yn rhan o'r canllaw hwn. Nid oes angen trwydded arnynt, ond efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Dylech wirio statws y tir dan sylw gyda'r Cyngor. Efallai y bydd tir yr ydych chi'n ei ystyried yn dir preifat bellach yn rhan o'r ffordd fawr os yw'r cyhoedd wedi gallu ei ddefnyddio ers o leiaf ugain mlynedd neu os yw'r cyngor wedi mabwysiadu'r tir.

5. Rhoddir caniatâd ar gyfer mannau smygu amgaeedig drwy gyflwyno trwyddedau gan y Cyngor fel Awdurdod y Ffordd Fawr dan Ddeddf Priffyrdd 1980. Ystyrir unrhyw ardal amgaeedig ar y ffordd fawr heb ganiatâd yn rhwystr cyfreithiol a bydd y Cyngor yn gweithredu camau gorfodi mewn achosion o'r fath.

6. Bydd rhaid unrhyw barti sydd â blaen adeilad yr effeithir arno gydsynio hefyd pan fo cynnig i ymestyn ardal smygu y tu hwnt i led blaen eich adeilad eich hun.

7. Os ydych am weini alcohol i'w yfed yn yr ardal, bydd angen trwydded lleoliad arnoch sy'n caniatáu gwerthu ac yfed alcohol yn yr ardal honno. Gellir gwneud cais am drwydded lleoliad neu i amrywio trwydded lleoliad drwy'r awdurdod trwyddedu lleol, Cyngor Sir Caerdydd.

8. Os yw'r ymgeisydd yn gwmni cyfyngedig neu'n Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig bydd y drwydded yn cael ei diddymu os daw'r cwmni/partneriaeth i ben neu os bydd yn nwylo'r

gweinyddwr neu’n methdalu ac ni chaniateir defnyddio’r ardal sydd wedi ei diffinio. Ni ellir trosglwyddo’r drwydded felly. Bydd angen i’r gweithredydd newydd wneud cais am drwydded newydd.

9. Os yw’r ceisydd yn unig fasnachwr neu’n bartneriaeth anghorfforedig, pan fo’r person neu bartner hwnnw'n methdalu, bydd y drwydded yn cael ei diddymu ac ni chaniateir i'r ardal gael ei defnyddio. Ni ellir trosglwyddo’r drwydded felly. Bydd angen i’r gweithredydd newydd wneud cais am drwydded newydd.

10. Dim ond y deiliad trwydded lleoliad cyfredol (os oes gan y lleoliad drwydded lleoliad) all wneud cais am, neu weithredu, trwydded ardal smygu amgaeedig. Ni dderbynnir gweithredwyr trydydd parti.

11. Yn gyffredinol, dylai ardal smygu amgaeedig fod yn syth o flaen eich eiddo a dylid gallu ei gweld o’ch eiddo.

12. Dylid ystyried anghenion pobl eraill sy'n defnyddio'r ffordd fawr, e.e. cerddwyr, masnachwyr, busnesau cyfagos. Rhaid cadw llwybr cerdded o 2 fedr o leiaf ar bob adeg.

13. Rhaid i’r ardal smygu beidio â rhwystro llwybrau gadael mewn argyfwng o’ch adeilad eich hun ac adeiladau cyfagos a rhaid i gerbydau brys allu gael mynediad ar hyd pob stryd ar bob adeg, hyd yn oed mewn strydoedd i gerddwyr.

14. Rhaid i gynllun yr ardal a’r ffordd y mae’n cael ei hamgáu alluogi mynediad a gofod symud i'r holl gwsmeriaid.

15. Ni ddylai’r ardal smygu fod mewn lle a fydd yn rhwystro gyrwyr rhag gallu gweld neu guddio arwyddion y ffordd fawr.

16. Os bwriedir gweithredu’r ardal smygu pan fydd hi’n dywyll, rhaid i’r ymgeisydd ystyried lefelau golau yn yr ardal dan sylw. Er y gallent fod yn briodol ar gyfer y ffordd fawr, efallai y bydd angen golau ychwanegol er mwyn gweithredu'ch ardal yn ddiogel.

17. Ar ôl cytuno ar faint a chynllun yr ardal smygu rhaid cadw atynt ar bob adeg. Rhaid i bob gweithgaredd sydd ynghlwm wrth yr ardal smygu fod o fewn y ffiniau a ganiatawyd, gan gynnwys pob blwch llwch, potiau planhigion, rhwystrau, ffensys ac ati.

18. Ym mhob achos, dylai’r hyn sy’n cael ei ddefnyddio i amgáu’r ardal, megis rhwystrau neu botiau planhigion, fod yn sefydlog ac yn gadarn. Ni ddylai fod iddynt rannau ymwthiol na rheilen dapio. Efallai y caniateir rhywfaint o hysbysebu ond fe’i cyfyngir i enw’r caffi yn unig. Rhaid peidio â’u defnyddio i hysbysebu gwasanaethau neu gynnyrch a werthir.

19. Deiliad y drwydded fydd yn gyfrifol am lanweithdra’r ardal smygu ar bob adeg. Dylid gofalu nad yw sbwriel yn ymledu neu’n cael ei chwythu y tu hwnt i’r ardal smygu.

20. Rhaid rhoi o leiaf blwch llwch metel (neu ddeunydd gwrth-dân arall) sy’n addas i’w ddefnyddio yn yr awyr agored, o ddeunydd na fydd yn pydru. Rhaid gwagio hwn yn gyson a rhaid iddo beidio â gorlifo i’r ffordd fawr.

21. Mae gollwng bonion sigarennau ar y llawr yn drosedd o dan Orchymyn (Hysbysiad Tâl Cosb) Sbwriel 1991, a gallai arwain at ddirwy o £100 i’r smygwr. Dylid arddangos arwyddion yn dweud hyn ac yn gofyn i bobl ddefnyddio’r blychau llwch a ddarperir.

22. Bydd methu â chydymffurfio â’r anghenion glanhau yn peryglu adnewyddu’r drwydded a gallai arwain at Hysbysiad Tâl Cosb.

23. Ni fydd y Cyngor yn caniatáu cysylltu unrhyw beth i’r ffordd fawr, na chloddio’r ffordd fawr.

24. Dylid gwneud popeth posibl i beidio â niweidio'r ffordd fawr neu eiddo cyfagos. Gellir codi tâl ar ddeiliad y drwydded os bydd angen trwsio'r ffordd fawr neu gelfi stryd yn sgil unrhyw weithgaredd sy’n gysylltiedig â gweithredu'r ardal smygu.

25. Bydd angen i ddeiliad y drwydded indemnio’r Cyngor yn erbyn pob gweithred, gorchymyn, cost, traul yn codi o ddefnyddio’r ffordd fawr dan y caniatâd a roddir.
    Bydd y Cyngor, felly, yn mynnu bod gan ddeiliad y drwydded yswiriant atebolrwydd cyhoeddus trydydd parti am £5,000,000 o leiaf.
    Dylid cynnwys manylion yswiriant trydydd person gyda’r cais am drwydded ardal smygu amgaeedig.

26. Nid yw rhoi trwydded i weithredu ardal smygu amgaeedig yn awgrymu hawl hollgynhwysol i'r ardal. Dylai gweithredwr yr ardal smygu fod yn ymwybodol bod y Cyngor yn cadw’r hawl i gael mynediad i’r ardal ar gyfer glanhau, trwsio neu wneud gwaith cynnal a chadw i’r ffordd fawr neu i gelfi stryd. Efallai y bydd sefydliadau eraill, megis ymgymerwyr statudol, angen mynediad ar gyfer cynnal a chadw a thrwsio eu hoffer. Mae’r Cyngor, felly, yn cadw’r hawl i ddileu'r drwydded dros dro os bydd angen hynny am unrhyw reswm.

27. O dan dermau Deddf Priffyrdd 1980 mae’n rhaid i’r Cyngor hysbysebu ceisiadau am drwyddedau ardaloedd smygu amgaeedig am 28 diwrnod o leiaf, drwy osod hysbysiadau yng nghyffiniau’r ardal smygu amgaeedig. Mae’r hysbysiadau hyn yn cynnwys manylion ynghylch y cynnig ac yn gwahodd sylwadau gan bobl y gallai’r ardal smygu effeithio arnynt.

28. Mae’r ffi ar gyfer prosesu cais am ardal smygu amgaeedig yn weithredol ar gyfer costau gweinyddol a chyfreithiol y broses o baratoi a chyflwyno'r drwydded. Mae hyn yn seiliedig ar yr ardal y gwneir cais amdani.

29. Ar ôl i’ch cais gael ei brosesu a’i gymeradwyo bydd swyddog cyllid yn cysylltu â chi i drefnu talu am y drwydded. Ni fydd y Drwydded yn cael ei chyflwyno tan i’r taliad llawn gael ei dderbyn. Bydd y Swyddog yn anfon e-gopi o'r drwydded fydd yn dangos yr hyn sy’n cael ei ganiatáu gan y drwydded a’r dyddiad dirwyn i ben. Rhoddir trwyddedau am 12 mis. Bydd y dyddiad dirwyn i ben wedi ei nodi ar y drwydded. Mae’r trwyddedau yn adnewyddadwy yn ôl disgresiwn y Cyngor.

30. Bydd y Cyngor yn archwilio’r ardal o dro i dro i sicrhau bod termau ac amodau’r Drwydded yn cael eu gweithredu. Gall y Cyngor ddileu trwydded dros dro neu ei diddymu'n llwyr os torrir unrhyw un neu ragor o dermau'r drwydded.

31. Os ystyrir bod trosedd wedi ei chyflawni, a deiliad y drwydded ynghlwm wrth y drosedd, a'i bod yn ymwneud â'r drwydded dan Ddeddf Priffyrdd 1980, bydd deiliad y drwydded i gychwyn yn cael dewis talu tâl cosb o £100 i ddod â'r mater i ben ar sail sifil. Os na dderbynnir hynny, neu os cyflawnir trosedd arall, bydd y mater yn cael ei gyfeirio ar gyfer erlyniad troseddol.

32. Os bydd gweithredwr yr ardal smygu yn gweithredu heb drwydded ddilys, gellir symud ymaith yr hyn sy'n amgáu’r ardal a'i storio am ffi, nes i drwydded gael ei chyflwyno neu tan i'r gweithredwr gasglu'r eitemau.

**Anfonwch eich cais, wedi ei gwblhau, gyda’ch dogfennau i:**

**GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk**

**Cyngor Caerdydd**
**Gwasanaethau Cymdogaeth,**
**Ystafell 301, Neuadd y Sir,**
**Glanfa’r Iwerydd,**
**CAERDYDD**
**CF10 4UW**

**Rhowch wybod i'r swyddfa hon os bydd y cyfeiriad gweithredol neu weinyddol yn newid.**